Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher y 25ain o Ionawr 2017 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.30yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Colin Jenkins, y Dirprwy Faer y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Julia Jones, y Cyng. Robert Jones, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Carol Watts, y Cyng. Owen James, y Cyng. Rebecca Butcher, y Cyng. Geraint Price, y Cynghorydd Sir Edward Thomas,
Mr Roger Phillips (Clerc Tref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Gordon Kilby.

Datganiadau o Fuddiant. Dim.

Doedd dim materion yn ymwneud â'r Heddlu.

Cof 259 / Ion / 17 Adroddiad y Cynghorydd Sir

Roedd y Cyng. Edward Thomas wedi dosbarthu ei adroddiad cyn y Cyfarfod. Dywedodd y Cyng. Thomas bod y gwaith ar y llyfrgell newydd, yn Swyddfeydd Heol Cilgant CSG, yn dod yn ei flaen yn dda a'i fod ar darged i agor ar ddechrau mis Mawrth. Roedd y Pentref Llesiant yn Llynnoedd Delta yn datblygu, gyda'r gobaith o gyfleoedd gyrfa niferus.
Cafwyd achos o fandaliaeth ym Mharc Penlan, lle'r oedd grŵp o bobl ifanc wedi bod yn torri poteli brynhawn dydd Sadwrn diwethaf. Gofynnwyd i bawb fod yn wyliadwrus ac i reportio unrhyw ymddygiad o'r fath pan welir ef.
Holodd y Cyng. Carol Watts os cafwyd unrhyw ohebiaeth gan Dawnus mewn perthynas â phrosiect yr Hen Neuadd Farchnad. Nid oedd y Cyng. Thomas wedi derbyn unrhyw ohebiaeth.

Cof 260 / Ion / 17 Cofnodion Blaenorol

Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 14eg o Ragfyr 2016, a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.
Cynigwyd gan y Cyng. Owen James ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher yr 11eg o Ionawr 2017, a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.
Cynigwyd gan y Cyng. Julia Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Carol Watts. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher yr 11eg o Ionawr 2017, ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn.
Cynigwyd gan y Cyng. Eifion Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

Cof 261 / Ion / 17 Materion yn deillio o'r cyfarfodydd blaenorol

Ynglŷn â Cof 241/ Rhag /16. Roedd yr Is-grŵp Tân Gwyllt wedi argymell ein bod yn prynu dwy uned sain am bris o £300. Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod yr unedau sain yn cael eu prynu, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Julia Jones. Roedd pawb o blaid.
Ynglŷn â Cof 234/ Rhag /16 (2). Holodd y Cyng. Eifion Davies pwy fyddai'n mynychu Pawb a'i Farn, Rhaglen S4C, sy'n cael ei recordio ar y 9fed o Chwefror. Byddai'r Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Eifion Davies a'r Cyng. Julia Jones yn mynychu'r digwyddiad.

Cof 262 / Ion / 17 Gohebiaeth yn galw am ymateb

1. Steve Kelshaw, Coleg Sir Gâr – gwahoddiad i fynychu cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd y Sir ar y 5ed o Chwefror, rhwng 6-8yh., mewn perthynas â'r grŵp cymorth a sefydlwyd i helpu teuluoedd o Syria sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin.
2. Jonathan Williams, CETMA - mewn perthynas â sefydlu hwb yn Llandeilo, i helpu pobl sy'n ddi-waith. Byddai'r Clerc yn ymateb i roi gwybod i Mr Williams am ddau leoliad addas h.y. Hwb Gorsaf Llandeilo ac adeilad yr hen Lyfrgell.
3. Prosiect Chwarae Llwybrau Porffor. Nodwyd.
4. Welsh Hearts Calonnau Cymru. Elusen a sefydlwyd i gynorthwyo i leoli diffibrilwyr mewn trefi. Gofynnwyd i'r Clerc i gysylltu ag elusen Cariad i gael mwy o wybodaeth.
5. Joanne Coates, LlCC - mewn perthynas ag arolwg o Gynghorau Tref a Chymuned. Cytunodd y Cyng. Edward Thomas i gwblhau'r arolwg ar-lein.

Cof 263 / Ion /17 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. Gorymdaith Dewi Sant. Gwahoddiad gan Gadeirydd CSG i'r Cynghorwyr gyfranogi yn yr orymdaith ar ddydd Sadwrn y 25ain o Chwefror am 11.00yb. Nodwyd.
2. Prosiect Chwarae Antur Playquest. Nodwyd.
3. Prosiect Menter i leihau tlodi tanwydd mewn cymunedau. Nodwyd.

Cof 264 / Ion / 17 / Materion Ariannol

1. Cyfrifon i'w talu.

	Net	TAW	Cyfanswm
D.Davies (visa)	£ 10.00		£ 10.00
D.Davies (visa)	£ 10.00		£ 10.00
J. Turvey (2 uned sain) DD597	£ 300.00		£ 300.00

Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Carol Watts ac eiliwyd gan y Cyng. Julia Jones. Roedd pawb o blaid.

Cof 265/ Ion / 17 Materion Ariannol Eraill

1.Dywedodd y Swyddog Cyllid bod y bond adnau llog uchel o £30,000 wedi cael ei ail-fuddsoddi. Cronnwyd £ 38.71 mewn llog yn ystod y cyfnod buddsoddi blaenorol.
2.Dywedodd y Swyddog Cyllid ei fod yn dymuno parhau i weithio gyda banc HSBC, er gwaethaf y ffaith bod canghennau lleol o'r banc wedi cau'n ddiweddar. Roedd wedi meithrin perthynas waith dda gyda'r banc.
3.Dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Cynigodd y Cyng. Carol Watts bod £500.00 yn cael ei glustnodi i dalu am y costau cysylltiedig, megis prynu baneri a'u harddangos nhw dros wythnos y dathliadau, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Julia Jones. Roedd pawb o blaid.

4.Dywedodd y Clerc fod Mrs Jonathan Edwards AS wedi rhoi genedigaeth i ferch fach. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Clerc yn anfon blodau a cherdyn i Mr a Mrs Edwards, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Eifion Davies. Roedd pawb o blaid.

Cof 266 / Ion / 17 Doedd dim materion yn ymwneud â Thrawsgludiaeth a Phriffyrdd

Cof 267 / Ion / 17 Cais Cynllunio i'w Benderfynu

Ynglŷn â: Cais E/34880: 4 mewn nifer o unedau preswyl teras, 3 ystafell wely ac uned ar wahân 3 ystafell wely yn 11A, Adeiladau'r Banc.

Arwyddodd y Cynghorydd Sir Edward Thomas y Llyfr Datganiadau o Fuddiant, gan ei fod eisoes wedi rhoi ei sylwadau fel yr Aelod lleol.

Arwyddodd y Cyng. Dawn Wallace y Llyfr Datganiadau o Fuddiant, fel perchennog adeilad cyfagos. Ni wnaeth yr un ohonynt gyfranogi wrth roi ystyriaeth i'r mater.

Sylw: Doedd dim gwrthwynebiad. Cynigwyd gan y Cyng. Eifion Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Geraint Price. Roedd pawb o blaid.

Cof 268 / Ion /17 Adroddiad y Swyddog Technegol

Roedd adroddiad Mr Davies wedi cael ei ddosbarthu ymlaen llaw. Dywedodd bod y trydydd cwmni wedi darparu dyfynbris ar gyfer y gwaith o ddatblygu'r ardal chwarae i blant ym Mharc Le Conquet. Nodwyd gweddill yr adroddiad.

Cof 269/ Ion /17 Adroddiad y Maer

Rhoddodd y Maer adroddiad ar yr achlysuron a fynychodd ar ran y Cyngor.

21ain o Ragfyr	Carolau Nadolig Abbeyfield
23ain o Ragfyr	Cinio Nadolig y Rotari
23ain o Ragfyr	Ymweld ag Awel Tywi.
14eg o Ionawr	Cyngerdd gan Gôr Llandeilo yn Eglwys yr Holl Saint, Rhydaman, er budd Ambiwlans Awyr Cymru.
20fed o Ionawr	Ail-agor swyddfa'r NFU yn Llandeilo.

Cof 270 / Ion / 17 Adroddiadau Eraill

1.Dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Trafodwyd yr adroddiad a baratowyd gan y Cyng. Robert Jones. Roedd sawl digwyddiad wedi cael eu trefnu, gan gychwyn gyda Chyngerdd ar nos Sadwrn y 26ain o Chwefror yng Nghapel Newydd.

Gofynnwyd i'r Clerc i anfon gwahoddiadau i Feiri Llanymddyfri, Cwmaman, Rhydaman, Cadeirydd CSG a Dyffryn Cennen i fynychu'r cyngerdd.

Gofynnwyd i'r Clerc i archebu 20 o faneri, 10 baner Cymru a 10 baner Dewi Sant. Cynigwyd gan y Cyng. Geraint Price ac eiliwyd gan y Cyng. Julia Jones. Roedd pawb o blaid.

2.Y Diweddaraf ar yr Is-grŵp Trosglwyddo Asedau. Dywedodd y Cyng. Edward Thomas y byddai adroddiad Carl Morgan yn cael ei ddosbarthu i'r Aelodau i gyd, cyn gynted ag sy'n bosib. Mae Mr Edward Friend yn gweithio ar y Dogfennau Cyfreithiol a ddarparwyd gan CSG.

Cof 271 / Ion / 17 Ffurfio Is-grwpiau ar gyfer 2017/18

1. **Digwyddiadau'r Haf ym Mharc Penlan**:
   Y Maer, y Dirprwy Faer, y Cyng. Julia Jones, y Cyng. Owen James, y Cyng. Rebecca Butcher.
2. **Goleuadau Nadolig:**

Y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Geraint Price, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Dawn Wallace.

3. **Is-grŵp Tân Gwyllt:**
   Y Maer, y Dirprwy Faer, y Cyng. Geraint Price, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Owen James.
4. **Llandeilo Yn Ei Blodau**
   Y Maer, y Cyng. Carol Watts, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Geraint Price, y Cyng. Richard Wallace.

Cof 272 / Ion / 16 Doedd dim eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.05yh.